

Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng

Archwilio Mewnol (adnodd ar y cyd ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru)

ac

Adran Safonau Proffesiynol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

ar gyfer Riportio Anghysondebau Ariannol Posibl

Cefndir

Mae'n rhaid i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) a'r Heddlu gynnal safonau uchel o briodoldeb a chysondeb wrth ddelio â materion ariannol ac mae'n rhaid iddynt ddiwallu gofynion statudol.

Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth (MoDd) hwn yn cydnabod bod gan yr Adran Safonau Proffesiynol, Swyddogion Adran 151 (Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Cyfarwyddwr Adnoddau ac Archwilio Mewnol) swyddogaethau o ran delio ag anghysondebau ariannol perthnasol i Wasanaeth yr Heddlu. Mae'r MoDd hwn yn ffurfioli'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer riportio ac ymchwilio i anghysondebau ariannol posibl. Mae polisi'r SCHTh a'r Heddlu ar atal a datgelu twyll wedi'i gynnwys yn y Polisi Atal Twyll a Llygredigaeth ar y Cyd.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2008 sy'n rheoli rôl yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP). Mae dyletswydd ar yr ASP i ymchwilio i ymddygiad amhroffesiynol ac anfoesegol, cwynion a materion disgyblu, llygredigaeth ac anonestrwydd o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Bydd pob mater o'r fath, gan gynnwys anghysondebau ariannol, yn cael ei

riportio i'r Adran er mwyn ei ymchwilio. Mae rôl Archwilio Mewnol o ran anghysondebau ariannol wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau Ariannol sy'n rhan o'r Llawlyfr Llywodraethu. Mae'n rhaid riportio unrhyw golled neu anghysondeb i'r Swyddogion Adran 151 ac Archwilio Mewnol.

Er pwrpas y MoDd hwn:

Mae anghysondeb yn golygu:

Achosion gwirioneddol neu bosibl o dwyll, llygredigaeth neu unrhyw golledion asedau neu arian sylweddol."

Diffinnir twyll fel:

"Unigolion o fewn neu oddi allan i'r SCHTh neu'r Heddlu yn cam-lunio datganiadau ariannol neu gofnodion eraill yn fwriadol er mwyn celu'r camddefnydd o asedau neu er mwyn elwa mewn rhyw ffordd."

Mae sawl gwahanol ddiffiniad o lygredigaeth, gan gynnwys:

"Unrhyw weithgaredd a wneir gan unigolyn er elw, ffafr, dyrchafiad neu wobwr sy'n anghyson gydag arferion priodol eu swydd, cyflogaeth neu gyfrifoldeb" (SOCA/ACCAG)

"Swyddog gorfodi'r gyfraith sy'n cyflawni gweithred anghyfreithlon neu'n fwriadol peidio â chyflawni ei rôl gan gam-fanteisio ar ei swydd er budd personol neu sefydliadol gyda'r posibilrwydd y gallai hynny effeithio ar aelod o'r cyhoedd" (SOCA/ACCAG)

"Camddefnyddio hawliau er budd personol"

Mae hefyd yn cynnwys unrhyw amgylchiadau lle mae systemau, prosesau neu reolaethau wedi eu torri neu eu hanwybyddu mewn ffordd a allai roi cyfle i dwyll, llygredigaeth neu golled ddigwydd.

Mae Archwilio Mewnol yn wasanaeth a ddarperir dan A7 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) (a ddarperir ar hyn o bryd gan TIAA).

Amcanion y Cytundeb

Ein hamcanion yw:

- ffurfioli'r broses o feithrin parch a phartneriaeth broffesiynol rhwng yr ASP ac AM pan maent yn delio ag anghysondebau ariannol, fel bod y ddau barti yn cyflawni eu rolau yn effeithiol ac yn effeithlon;
- hyrwyddo hyder a ffydd rhwng yr ASP ac AM er mwyn iddynt rannu gwybodaeth;
- ffurfioli'r broses o gydweithio drwy gefnogi rolau ei gilydd;

- darparu trefniadau sy'n galluogi trafod anghysondebau ariannol ac enwebu pwyntiau cyswllt;
- sicrhau y cymerir camau i daclo unrhyw wendidau yn y system sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i anghysondeb ariannol; a
- darparu sicrwydd i'r CHTh a'r archwilwyr allanol bod trefniadau llywodraethu corfforaethol priodol mewn wedi eu sefydlu ar gyfer mynd i'r afael ag anghysondebau ariannol o fewn Heddlu Gogledd Cymru neu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

MEMORANDWM O DDEALLTWRIAETH

1) Mae wedi'i gytuno: -

Y bydd Archwilio Mewnol yn hysbysu'r ASP o bob anghysondeb a amheuir sy'n ymwneud â swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru, pa un a ydynt yn cael eu cyflogi'n gyfan gwbl gan yr Heddlu, ar gontract neu'n gwneud gwaith gwirfoddol. Hefyd, dylid nodi y dylid atgyfeirio honiadau o lygredigaeth ddifrifol at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (CAAH) fel mater o drefn. Ceir diffiniad o lygredigaeth ddifrifol yn arweiniad statudol y Comisiwn Cwynion - POL/06.


2) Bydd yr ASP yn hysbysu Archwilio Mewnol o unrhyw anghysondebau sy'n cael eu hamau yn ymwneud â:

- chyllid neu asedau SCHTh;
- contractau caffael, offer, storfeydd neu asedau eraill sydd gan SCHTh;
- arian a atafaelwyd neu a ddarganfuwyd neu eiddo arall sydd ym meddiant Heddlu Gogledd Cymru; neu
- cyllid preifat neu gyllid o fath arall a weinyddir gan yr Heddlu neu SCHTh yn rhinwedd eu rôl.

3) Bydd yr hysbysiad yn cynnwys cymaint o'r wybodaeth ganlynol ag sydd ar gael, er enghraifft:

- amlinelliad byr o'r hyn yr amheuir neu yr honnir sydd wedi digwydd;
- pwy sydd dan amheuaeth neu'n gysylltiedig â'r mater;
- statws yr ymchwiliad;
- y swm neu'r gwerth sydd dan sylw; ac

- enw a rhif ffôn y Swyddog Ymchwilio ac amserlen fras ar gyfer yr ymchwiliad.
- 4) Heblaw mewn amgylchiadau lle mae'n rhaid cyfeirio'r mater yn syth i'r CCAH, cynhelir cyfarfod rhwng yr ASP ac Archwilio Mewnol cyn i unrhyw ymchwiliad ddechrau er mwyn penderfynu ar:
 - ymdriniaeth ymchwilio gymesur; a
 - llinellau riportio
 - 5) Bydd pob parti perthnasol yn hysbysu ei gilydd ynghylch statws ymchwiliadau er mwyn ceisio rhwystro achosion rhag cael eu hesgeuluso neu er mwyn osgoi dyblygu gwaith.
 - 6) Bydd Archwilio Mewnol yn sicrhau bod unrhyw wendidau posibl gyda systemau sy'n dod i'r amlwg mewn achosion yn cael eu riportio fel sy'n briodol.
 - 7) Bydd Archwilio Mewnol yn cynnig cymorth priodol i'r ASP yn ôl y gofyn o ran materion sydd wedi'u cynnwys yn y MoDd hwn.
 - 8) Bydd yr ASP yn caniatáu i Archwilio Mewnol gael mynediad i'w gyfleusterau er mwyn cefnogi ei archwiliadau a'i ymchwiliadau mewn perthynas â materion sydd wedi'u cynnwys yn y MoDd hwn.
 - 9) Bydd yr ASP yn hysbysu Archwilio Mewnol o ganlyniadau ymchwiliadau i faterion sydd wedi'u cynnwys yn y MoDd hwn. Yn yr un modd, bydd Archwilio Mewnol yn hysbysu'r ASP o ganlyniad unrhyw fater a atgyfeirir atynt.
 - 10) Bydd Archwilio Mewnol yn hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid ac, fel sy'n briodol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau o unrhyw fater sy'n ymwneud â'r MoDd hwn.
 - 11) Bydd Archwilio Mewnol yn cydlynu ac yn llenwi ffurflen twyll flynyddol ar ran SCHTh a'r Heddlu i'w chyflwyno i'r archwilwyr allanol ar gais. Bydd yr ASP yn darparu hynny o wybodaeth sy'n angenrheidiol am ei achosion fel y gellir llenwi'r ffurflen o fewn yr amser a nodwyd.
 - 12) Bydd Archwilio Mewnol a'r ASP yn cynhyrchu gwybodaeth berthnasol sy'n crynhoi gweithgarwch atal twyll a llygredigaeth y flwyddyn flaenorol, i'w gynnwys yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol. Bydd gwybodaeth neu gudd-wybodaeth a rhyddheir dan delerau'r MoDd hwn yn cael ei rhannu'n ddiogel ac yn gyfrinachol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach

NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid

Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Llofnod

.....

Dyddiad ...15/09/21.....

Seb Phillips

Director of Finance and Resources

Prif Gwnstabl

Llofnod

.....

Date...15/09/21.....

Helen Cargill

Pennaeth Archwilio Mewnol

Llofnod

.....

Dyddiad.....15/09/21.....

Ditectif Uwcharolygydd Supt Dan Tipton

Prif Gwnstabl

Llofnod

.....

Dyddiad.....31/8/21

Bydd y Memorandwm o Ddealltwriaeth hwn yn cael ei adolygu ar y cyd o leiaf bob blwyddyn.